# Gwahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant

Chwefror 12, 2015 Golwg 360

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd gwaharddiad ar bobl yn ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn dod i rym ar Hydref 1 eleni. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â'r mater hwn ond bydd Lloegr a'r Alban yn gwneud gwaharddiad tebyg.

**'Cemegau gwenwynig'**

Yn ôl y Gweinidog Iechyd, Mark Drakeford, bydd y ddeddf sy'n amodol ar gymeradwyaeth Aelodau'r Cynulliad, yn amddiffyn plant rhag peryglon mwg tybaco. Dywedodd fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i anadlu awyr lân a mwynhau amgylcheddau di-fwg.

Yn ôl gwaith ymchwil, mae plant yn arbennig mewn perygl o anadlu mwg ail-law mewn car sy'n gyfyng o ran lle. Nid oes unman iddynt ddianc iddo rhag y cemegau gwenwynig mewn mwg tybaco.

Rhwng 11 Medi 2014 a 24 Hydref 2014 cynhaliwyd ymgynghoriad ar y gwaharddiad. Cytunodd cyfanswm o 86% o ymatebwyr y dylid gwahardd ysmygu mewn cerbydau preifat pan fydd plant dan 18 oed yn bresennol.

**Dirwy**

Bydd dirwy o £50 yn y fan a'r lle yn cael ei rhoi i bobl sy'n cael eu dal yn torri'r ddeddf newydd.

Bydd rheoliadau yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad a fydd yn ei gwneud yn drosedd i:

- ysmygu mewn cerbyd preifat pan fydd rhywun dan 18 oed yn bresennol;
- peidio ag atal pobl sy'n teithio mewn car preifat rhag ysmygu pan fydd rhywun dan 18 oed yn bresennol.

Rydyn ni wrth ein bodd. Bydd hyn, ynghyd â newid golwg pacedi sigaréts, yn atal ysmygu rhag bod yn rhywbeth 'normal' ac yn amddiffyn plant rhag y ddibyniaeth beryglus, farwol hon.

*Samantha Noor o'r grŵp,'Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd'*

Mae'r llywodraeth yn mynd dros ben llestri. Mae'r mwyafrif llethol o ysmygwyr yn gwybod bod ysmygu mewn car gyda phlant yn anystyriol a dydyn nhw ddim yn ei wneud e. Mae'r gwaharddiad yn ddiangen ac yn eithafol. Ydyn ni wir eisiau gwneud y sawl sy'n cynnau sigarét mewn cerbyd preifat yn droseddwyr? Beth am ryddid yr unigolyn?

*Jeff Peters o'r grŵp ymgyrchu dros ysmygwyr, Forest*

**Y ffeithiau...**

- Bydd mwg yn aros yn yr aer am hyd at ddwy awr a hanner, er bod ffenestr ar agor.
- Mae mwg ail-law yn cynnwys mwy na 4,000 o gemegion ac mae rhai o'r rhain yn achosi cancr.
- Mae dod i gysylltiad â'r mwg hwn yn cael ei gysylltu'n gryf gyda haint ar y frest, asthma, problemau clust a marwolaeth y crud.
- Mae ymchwil yn dangos bod 300,000 o blant yn y DU yn ymweld â'u meddyg teulu bob blwyddyn o ganlyniad i effeithiau mwg ail-law, gyda 9,500 yn mynd i'r ysbyty.
- Mae ysmygu mewn car yn creu lefelau uwch o wenwyn nag mewn bar. Mae peth ymchwil yn dweud ei fod un ar ddeg gwaith yn uwch.
- Mae gwaharddiadau ar ysmygu mewn ceir pan fo plant yn bresennol yn bodoli'n barod mewn rhannau o Awstralia, Canada a'r Unol Daleithiau.

***Ffynhonnell***

golwg360

**Darllen**

1. Ar ôl darllen y wybodaeth ar wahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant, rhowch ✓ i nodi a ydy'r gosodiad yn gywir neu'n anghywir.

*(Adalw gwybodaeth)*

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, mae gwaharddiad ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant. | | |
| Mewn arolwg yn 2014, roedd dros 85% o'r rhai a holwyd o blaid gwaharddiad. | | |
| Mae'r mwg yn diflannu'n gyflym o'r car os bydd y ffenestri ar agor. | | |
| Mae aelodau'r mudiad *Forest* yn erbyn y ddeddf newydd ynglŷn ag ysmygu mewn ceir. | | |

2. Pa un o'r canlynol sydd ddim ar y dudalen am ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant ? (Rhowch ✓ yn y blwch priodol.)

*(Adalw gwybodaeth)*

a. safbwyntiau gwahanol ☐
b. adroddiad ffeithiol ☐
c. gwybodaeth wyddonol ☐
ch. cefndir hanesyddol ☐

3. Pam fod plant yn wynebu peryglon iechyd wrth deithio mewn ceir lle mae mwg sigarét ail-law? (Rhowch ✓ yn y blwch priodol.)

*(Adalw gwybodaeth)*

a. Mae'r mwg yn fwy gwenwynig nag mewn bar. ☐
b. Mae'r lle yn fach a does dim lle i ffoi. ☐
c. Mae ganddynt hawl i anadlu awyr lân. ☐
ch. Mae 300,000 yn ymweld â meddygon teulu yn flynyddol. ☐

4. Nodwch **dri** chyflwr iechyd sy'n gallu effeithio ar blant a phobl ifanc oherwydd mwg ail-law mewn ceir.

*(Adalw gwybodaeth)*

________________________________________

________________________________________

________________________________________

5. Rydych chi'n gweld plentyn bach mewn car ac mae ei fam yn ysmygu. Mae'r plentyn yn rhy ifanc i allu dweud wrth ei fam pam y dylai stopio.

   Ewch chi ati i ysgrifennu yr hyn y byddech chi'n ei ddweud wrthi petaech chi'n cael y cyfle. (tua ½ tudalen)

- Dylech ddefnyddio rhai o'r ffeithiau a dadleuon o'r darn darllen i gryfhau eich achos.
- Ceisiwch ddefnyddio technegau perswâd e.e. chwarae gyda theimladau, cwestiynau rhethregol …

*Mae'r darn y byddwch yn ei ysgrifennu yn ddarn sy'n **perswadio**.*

*(Adalw gwybodaeth ac aralleirio)*

## Llafaredd

6. **Chwarae rôl (grŵp o dri**). Dychmygwch fod aelod o'r grŵp *Forest* sy'n ymgyrchu dros hawliau ysmygwyr a'r grŵp 'Gweithredu ar Ysmygu a Iechyd' yn cyfarfod ar banel mewn rhaglen deledu. Bydd dau ohonoch yn actio'r cymeriadau hyn a bydd y llall yn gyflwynydd y rhaglen ac yn cadeirio'r drafodaeth. (tua 5 munud ar ôl paratoi)

7. Yn y darn darllen, mae'r aelod o'r grŵp ymgyrchu dros hawliau ysmygu, *Forest* , yn gofyn y cwestiwn, **'Beth am ryddid yr unigolyn?**'

   **Trafodwch mewn grŵp** – A ddylai fod gan bobl yr hawl i ddweud a gwneud yr hyn maen nhw'n dymuno ei wneud mewn cymdeithas rydd?

   e.e. protestio yn erbyn llywodraethau, mynegi barn ar faterion gwleidyddol neu grefyddol, ysmygu, cymryd cyffuriau, gwisgo yr hyn maen nhw eisiau, gwneud jôcs am unrhyw beth neu berson … Ystyriwch nifer o sefyllfaoedd gwahanol yr ydych wedi clywed amdanynt yn y wlad hon a gwledydd eraill.
   Gallwch gyfeirio at faterion sy'n gyfredol yn y newyddion neu sy'n codi o'ch profiad chi.

## Ysgrifennu

8. Ysgrifennwch erthygl i gylchgrawn pobl ifanc i **berswadio** pobl ifanc i edrych ar ôl eu cyrff– cael digon o ymarfer corff, bwyta'n gall a byw'n iach yn gyffredinol.